

## Cofion

Yr ydym yn anfon ein cofion heddiw at nifer o'n haelodau sydd yn yr ysbyty, rhai wedi cael llawdriniaeth ac eraill yn cael gofal arbenigol. Cofiw'n am Elena Owen (Llanefydd) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Wrecsam, a Megan Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Abergele, a chofiw'n hefyd am Geraint Davies (Llansannan), Mair Owen (Llanfair), ac Elfed Davies (Saron) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a Menna Streeter (Henllan) sy'n parhau'n yr Inffirmari. Da clywed fod Peter Jones (Groes) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y cânt adnabod tangnefedd Duw yn gwarchod drostynt. Hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau.

## Ysgolion Sul

Dyma'r gwaith a osodwyd ar gyfer y plant i'r Arholiad Llafar eleni:

⇒ **Meithrin a Dosbarth Derbyn:** Rhif 3 - Pennill 1 a 3, Detholiad 2010-2011

⇒ **Blwyddyn 1 a 2:** Rhif 8 - Pennill 1 a 2 a'r gytgan, Detholiad 2010-2011

Bydd pob Ysgol Sul yn dewis aelod i wrando ar y plant yn adrodd y penillion uchod ar un o'r tri Sul cyntaf ym Mehefin ac yn cyflwyno tystysgrifau i'r plant.

Bydd y plant hefyd yn canu'r penillion y byddant wedi eu dysgu fel un côr yn ystod y cyfarfod *i-Grist*.

## I ddod

- Cynhelir y sesiwn nesaf o'r **Cwrs i Flaenoriaid ac Aelodau Eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant ar Mehefin 8fed.
- Cyfle i ferched o bob oed (16+) i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu yn y **Diwrnod Genod** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 10fed-11eg. Enwau, ynghyd â'ch dewis o fwyd erbyn Mehefin 3ydd. Mwy o fanylion gan Mair (870632) neu trwy ffonio'r Coleg (01678 520565).
- Bydd **Martyn Geraint** yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul *i-Grist* eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Yna, bydd cyfle pellach ar ôl yr oedfa i gymdeithasu ac i gael picnic yn y Brenig. Bydd trefniadau eraill wedi eu gwneud os na fydd y tywydd yn ffafriol.
- Bydd y cwrs **Souled Out**, sydd ar gyfer ieuenctid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22<sup>ain</sup> Mai 2011

"Yr ARGLWYDD yw fy mugail...gwna i mi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel." (Salm 23:1-2)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Dwi'n meddwl mai Trebor Roberts, Acre Isa, a ddywedodd yr wythnos yma mai'r 18fed o Fai oedd yr amser traddodiadol yn y fro hon i droi'r gwartheg allan wedi'r gaeaf. Diwrnod pwysig yn y calendr felly a'r rheswm dros ddewis y 18ed o Fai? Wel, mae'n debyg bod y borfa, o'r dyddiad yma ymlaen, yn tyfu dan draed! Dyma gyfnod y tyfiant naturiol, cyn bod gwrtaitn nac ICI! Cael mynd allan i ryddid ac i borfa dda – 'does ryfedd fod y gwartheg ar ben eu digon. Cefais ar ddeall hefyd gan Trebor ei bod yn ddisgwylledig i bob fferm wneud y gwaith hwn ar yr un dydd i osgoi cynhyrfu'r gwartheg a fyddai, fel arall, yn dal yn y siediau. Byddai'r rheini'n mynd yn anfoddog o synhwyro'r newid byd a ddeuai i ran y rhai a gawsai eu troi allan!

Mae'r borfa sy'n mynd i gynnal ein hysbryd yn agos atom – o dan ein traed heddiw - a chroeso i chi i oedfaon y dydd! Arwain ei braidd at y porfeydd breision a wna'r Bugail Da ac at y dyfroedd tawel. Byddai'n braf meddwl y byddem i gyd yn troi allan hefo'n gilydd ar y Sul hwn - yr 22ain o Fai - i gyrchu'r borfa newydd fendithiol sydd wedi ei ddarparu gan Dduw ar ein cyfer yn ei Air.

Cawn ein cynnal trwy ogoneddu Iesu a dyma beth yw prif waith yr Ysbryd. Bydd yma yn ein bwydo hefo'r gorau sydd gan Dduw ar ein cyfer er gogoniant i'r Arglwydd Iesu. Peidiwch ag aros yn y sied! Dewch i gydaddoli ac i fwynhau gwleddoedd Duw!

Anrhydedd o'r mwyaf oedd derbyn cais y Pwyllgor Bugeiliol i roi fy hun gerbron yr ofalaeth i bleidlais yr eglwysi fel gweinidog. Byddai'n amhriodol i mi ddweud dim ymhellach ar hyn o bryd cyn y bleidlais, dim ond diolch i chi a'ch annog i ymddiried yn yr Arglwydd am ei arweiniad Ef. Fe wna'i y'r un peth ac fe awn ymlaen felly yn hyderus beth bynnag fydd canlyniad y bleidlais.

Yn Oedfa'r Fro heno byddwn yn parhau yn ein cyfres ar Berson a gwaith yr Ysbryd Glân ac yn ceisio cyplysu'r disgrifiad o waith yr Ysbryd yn argyhoeddi'r byd hefo wythnos Cymorth Cristnogol. Mae presenoldeb yr Ysbryd yn dwyn argyhoeddiad i galonnau – argyhoeddiad o gyfiawnder. Wrth ystyried holl anghyfiawnderau'r byd y cwestiwn sydd yn codi ydi tybed a yw'n bywydau ni yn argyhoeddi eraill ein bod ni yn gweithio tuag at well byd a byd mwy cyfiawn?

Byddaf yn meddwl yn aml pam yr aeth fy nhad o'r weinidogaeth draddodiadol i weithio fel Ysgrifennydd Gogledd Cymru i Gymorth Cristnogol yn 1968. Fedra i ddim ond dyfalu bellach, and synnwn i ddim fod a wnelo'r cwestiwn yma a'i resymau o.

Gweld yr Eglwys fel cyfrwng yn llaw yr Ysbryd i argyhoeddi'r byd o bechod, cyfiawnder a barn a cheisio annog corff Crist i herio anghrediniaeth, symud anghyfiawnder a dathlu buddugoliaeth Crist – dyna a wnaeth fy nhad mae'n debyg. Gweld fod gan pob Cristion, trwy esiampl eu bywyd a'u cyffes, gyfrifoldeb i argyhoeddi'r byd trwy sefyll gyda'r tlawd a'r anghenus. Diolch i chi am gefnogi ymgyrch CC eto eleni a diolchwn am bawb sy'n gweithio dros Grist yn y llefydd anoddaf hynny o'r byd.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** gyda chyfeiriad at waith Cymorth Cristnogol yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00.
- Mercher • **Darganfod Cristnogaeth** yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30.
- Sul nesaf • Gan ei bod yn bumed Sul, ni fydd **Oedfa i'r Fro** yn Llansannan heno.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma • Bydd Mrs Helen Wyn Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma • Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn yr Eglwys am 11.00 a bydd cyfeiriad at waith Cymorth Cristnogol yn Oedfa'r Fro am 6.00 yng Nghapel Coffa Henry Rees.
- Iau • Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf • Bydd Mrs Nia Royles yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma • Ni fydd oedfa yn Nantglyn nac yn Nhanyfron, ond bydd croeso i bawb ymuno mewn oedfa yn un o'r capeli eraill.
- Sul nesaf • Bydd rhai o'r aelodau yn cymryd rhan ddechreuol yr oedfa yn Nhanyfron am 2.00 a'r Parch Wayne Roberts yn pregethu, a'r Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn gofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.
- Sul nesaf • Bydd Mrs Nesta Davies yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Henllan a Groes

- Sul yma • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf • Bydd Mrs Enid Davies yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00 a Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma • Bydd y Parch Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf • Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddwy oedfa i ofyn, trwy bleidlais gudd, a yw'r aelodau yn bleidiol i alw Aneurin yn weinidog ar yr eglwysi ym Mro Aled. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i  
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.